OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 No. 1041

# Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat (Cymru) 2017

## RHAN 2

## Monitro

**Cyflenwadau newydd**

**15.**—(1) Pan fo awdurdod lleol yn dod yn ymwybodol o gyflenwad dŵr preifat sydd i'w ddefnyddio am y tro cyntaf (neu am y tro cyntaf ar ôl peidio â chael ei ddefnyddio am gyfnod o 12 mis neu ragor), neu sy'n cael ei ddefnyddio felly, rhaid cydymffurfio â gofynion rheoliadau 6 i 14 ac 16 i 19 cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

(2) Ni chaniateir dechrau defnyddio neu ddefnyddio cyflenwad dŵr preifat hyd nes bod yr awdurdod lleol wedi ei fodloni nad yw'r cyflenwad yn peri perygl posibl i iechyd dynol.